



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig;  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development;  
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## Cynllun Buddsoddi Mwen Busnesau Pren

### Cwestiynau Cyffredin

**C1: Os ydw i'n prynu offer gyda chytundeb hur-bwrcas, oes hawl gen i i ymgeisio am grant o dan y cynllun?**

A1: Gallech fod yn gymwys am grant gwerth hyd at 40% o elfen buddsoddiad cyfalaf y cytundeb hur-bryniant. Ni chewch grant ar gyfer unrhyw gostau cyllido na thaliadau llog. Pe baech yn cael grant, byddai'n cael ei dalu i chi fel ôl-daliad ar ôl ichi ddangos tystiolaeth gostau cyfalaf cymwys y taliad. Gallem gyfyngu ar hyd y taliad grant sy'n golygu na fydd efallai yn cyd-fynd â thymor llawn y cytundeb hur-bwrcas. Os ydych chi'n llwyddo i basio'r cam Mynegi Diddordeb, bydd yn rhaid i chi drafod y cynnig yn fanwl gyda ni yn ystod ail gam y broses.

**C2.** Ar ôl i ddatganiad o ddi-ddordeb cymeradwy gyrraedd, os bydd ymgynghorydd yn llunio cais, a fydd y gost yn gymwys ar gyfer y cyllid 40% ac a all gael ei gynnwys yn y cais?

A2. Na, nid yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn darparu cymorth grant ar gyfer llunio cais na'i gyflwyno. Mae gan y cyfeiriad at 'gostau ymgynghorydd a ffioedd technegol/proffesiynol' ystyr cyfyngedig. Mae'n cynnwys y costau hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r prosiect arfaethedig yn unig.

Y mathau o gostau fyddai'n gymwys yw ffioedd penseiri, cynlluniau peirianwyr, asesiadau a chynghor ar beirianeg strwythurol, cynghor cyfreithiol, sicrhau caniatâd cynllunio (gan gynnwys ffioedd cynllunio), cael gafael ar unrhyw drwydded/caniatâd arall sydd ei angen ar gyfer y prosiect megis caniatâd tynnu a gollwng dŵr, ac asesiadau amgylcheddol ond nid Asesiadau Effaith Amgylcheddol llawn (gan y byddant yn gwneud y prosiect yn anghymwys).

**C3: A oes terfyn ar y ffioedd ymgynghori neu gynghori fydd yn gymwys am grant?**

A3: Ni chaiff ffioedd ymgynghori a/neu gynghori sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r buddsoddiad fod yn fwy na 12% o gyfanswm costau'r prosiect.

**C4: Os yw cwmni yn prynu offer ail law gan fusnes arall, a oes yna unrhyw gyfyngu ar berthynas y ddau gwmni â'i gilydd ac a allai hynny'n effeithio ar gymhwysedd?**

A4: Mae offer ail law yn gymwys, cyn belled â bod yr ymgeisydd yn fusnes bach neu ganolig.

Yr amodau eraill yw:

- a) Ni fydd pris yr offer yn fwy na'i werth ar y farchnad agored
- b) Rhaid i'r offer fod yn addas i'w ddiben ac ateb gofynion y prosiect
- c) Dylai'r offer allu para am o leiaf 5 mlynedd ar ôl cytundeb y grant

Caiff cwmni brynu'r offer oddi wrth unrhyw gwmni neu werthwr ond cymerir na fydd trefniadau artiffisial wedi'u creu rhwng y ddau gwmni. Rhaid i'r gwerthwr allu profi ei fod wedi gofyn am bris teg a rhesymol trwy fod wedi hysbysebu'r offer a dilyn trefniant derbyniol ar gyfer ei werthu, fel ocsiwn neu dendr caeedig.

**C5: Alla i gael cyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb trwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren?**

A5: Na allwch. Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf diriaethol ac anniriaethol yn unig, fel y'i disgrifir yn y nodiadau cyfarwyddyd. Er bod modd talu rhai ffioedd ymgynghori, mae'n rhaid eu bod yn ymwneud â chefnogi'r buddsoddiad cyfalaf. Nid yw astudiaethau dichonoldeb ar eu pen eu hunain yn gymwys. Er enghraifft, os yw'r ymgeisydd yn prynu meddalwedd cyfrifiadurol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r busnes pren, yna byddai hynny'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad anniriaethol cymwys. Rwy'n awgrymu eich bod yn darllen y nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y Cynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi – mae'n bosibl y byddai ymgeisio am gyllid gan y Cynllun hwn yn fwy priodol i'ch anghenion chi a chyfeirio at Fesur 16.2.

**C6: Rwy'n ystyried prynu tir i godi adeilad neu iard brosesu. A alla i gael help gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren i wneud hyn? Os ydyw, pa fath o help sydd ar gael i mi?**

A6: Mae'r help sydd ar gael gan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn cynnwys help gydag asedau diriaethol fel tir, adeiladau, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau a thrwyddedau patentau a ffioedd technegol ac ymgynghorol. Mae adeiladu, prynu neu wella eiddo sefydlog, a'r tir ond yn gymwys i (gan gynnwys ffioedd neu gostau eraill sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r pryniant) ddim mwy na 10% o gostau cymwys y prosiect buddsoddi dan sylw.

**C7: Pa gyfran o'r tir fyddai'n dderbyniol mewn cais?**

A7: Ni allwn ddweud yn bendant pa gyfran a gaiff ei hystyried yn dderbyniol am fod y broses Datgan Diddordeb yn broses gystadleuol. Os bydd cynlluniau eraill yn cynnig cymhareb well, mae'n bosibl y gallai cynlluniau sy'n cynnig arwynebeddau llai golli allan. Nid oes arwynebedd gofynnol o goetir ond mae lleiafswm ac uchafswm y gellir ei fuddsoddi. Gall coetir heblaw am goetir sy'n eiddo i'r ymgeisydd fod yn gymwys. Os bydd darnau ehangach o goetir yn elwa ar y buddsoddiad, dylid eu cynnwys yn y ffurflen Datgan Diddordeb.

**C8: A all fwy nag un darn o goetir gael ei gynnwys mewn cais er mwyn cynyddu cwmpas y prosiect a'r arwynebeddau a reolir? A fyddai cynnig o'r fath yn dderbyniol?**

A8: Os bydd mwy nag un darn o goetir yn elwa o'r buddsoddiad, gallant gael eu cynnwys fel rhan o'r arwynebedd sy'n elwa yn y ffurflen Datgan Diddordeb. Yn y cam Datgan Diddordeb, rydym yn gofyn i'r ymgeisydd ddatgan pob darn o dir a fydd yn elwa o'r buddsoddiad a hefyd i roi gwybod inni pa dystiolaeth o'r budd hwnnw y bydd yr ymgeisydd yn gallu ei rhoi os bydd yn llwyddo yn y cam Datgan Diddordeb ac yn cael ei wahodd wedi hynny i ail gam y cais.

**C9: A yw'n dderbyniol i ymgeisydd y prosiect sydd ar y ffurflen Datgan Diddordeb hefyd berchen ar asedau'r prosiect os oes cytundeb rheoli ar gyfer pob parti sy'n rhan o'r Cynllun?**

A9: Mae angen inni wybod yn glir pwy yw'r ymgeisydd a phwy fydd yn berchen ar y buddsoddiad y mae'r grant yn ei gynorthwyo. Os bydd hynny'n glir, ni fydd defnyddio'r offer er budd coetir ehangach yn achosi problem, yn wir dyna yw bwriad y grant.

**C10: Rwy'n awyddus i ehangu fy musnes cyflenwi pren caled ac er mwyn gallu gwneud hynny, rwyf am gael cymorth i brynu offer ychwanegol. Ydw i'n gymwys i gael fy ystyried o dan y Cynllun?**

A10: Mae'n rhaid i'r buddsoddiad fod o fudd i Goetiroedd Cymru. Nid oes unrhyw reolau pendant ynghylch faint o arian y gallwch chi wneud cais amdano ond byddwch yn gorfod cystadlu â phobl eraill. Felly, po fwyaf y budd y gallwch chi ei greu i goetiroedd Cymru, y mwyaf fydd eich siawns o gael cymorth ariannol.

**C11: Pa ganran o'r pren sy'n cael ei brosesu y mae'n rhaid iddo gael ei dyfu yng Nghymru a pha dystiolaeth fyddai'n rhaid cyflwyno i brofi hynny?**

A11: Gall y buddsoddiad fod o fantais i goetiroedd eraill yn Lloegr hefyd ond dim ond coetiroedd yng Nghymru sy'n cyfrif. Rydym yn gofyn ichi wneud datganiad ymlaen llaw am y dystiolaeth y byddwch yn ei chyflwyno yng Ngham 2, os byddwch yn llwyddiannus. Nid ydym yn dweud yn union beth fydd yn rhaid i chi ei wneud ond gall hynny amrywio o weithio'n llwyr mewn coetir sy'n eiddo i'r ymgeisydd, gweithio fel contractwr sydd â chontractau cyfredol neu lythyrau o fwriad, neu hyd yn oed dystiolaeth eich bod yn fusnes sefydledig.

**C12: Oes unrhyw derfyn ar swm y ffioedd ymgynghori neu gynghori a fydd yn gymwys i gael cefnogaeth?**

A12: Byddwn yn edrych ar bob achos yn ôl ei deilyngdod. Byddem yn disgwyl i unrhyw ran a gaiff ei chwarae gan ymgynghorwyr neu gynghorwyr fod yn gymesur â graddfa'r buddsoddiad arfaethedig a bod modd ei chyfiawnhau ar sail gwerth am arian. Felly, mae'n ddigon posibl y byddai angen gwneud rhagor o waith ar fuddsoddiad newydd a chymhleth ond ar y llaw arall, os prynu offer byddwch chi, ni fyddai angen cymaint o gyngor a chymorth. Byddai'r cyngor sy'n gymwys i gael grant yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen i gyfiawnhau'r buddsoddiad cyfalaf y mae'r grant yn ei gefnogi; ni fyddai cyngor busnes cyffredinol yn cael ei gefnogi. Byddai disgwyl i gostau'r ymgynghorwyr fod yn unol â chyfraddau presennol y farchnad.

**C13: Os yw cwmni yn prynu offer ail-law oddi wrth fusnes arall, a oes unrhyw gyfyngiadau o ran i ba raddau y mae'r ddau gwmni yn perthyn ac a fyddai hynny'n effeithio ar gymhwysedd?**

A13: Mae gennych hawl i brynu offer ail-law cyn belled â'ch bod yn bodloni'r rheolau canlynol: a) ni chafwyd grant gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol i

brynu'r offer; b) mae'r offer yn cael ei werthu am bris sy'n deg ar y farchnad ac c) mae disgwyl i'r offer bara o leiaf 5 mlynedd ar ôl cyfnod y cytundeb grant. Mae prynu offer ail-law yn golygu na all y busnes sy'n prynu'r offer ddilyn y trefniadau tendro arferol (mae angen 3 dyfynbris ac os oes angen, hysbysebu ar GwerthwchiGymru) felly mae'n bwysig bod gennych gyfres o ddogfennau sy'n olrhain y broses werthu

Mae'n rhaid i'r busnes sy'n prynu'r offer sicrhau nad yw'r pris wedi cael ei chwyddo ac mae'n rhaid i hynny fod yn glir os oes unrhyw berthynas rhwng y prynwr a'r gwerthwr.

#### **C14: Oes modd cael cymorth ar gyfer boeleri biomas o dan y cynllun?**

A14: Mae hynny'n dibynnu i raddau helaeth ar amcanion y prosiect ac at ba ddibenion y byddai'r gwres a gynhyrchid gan y boeler biomas yn cael eu defnyddio?

Enghraifft lle na fyddai cymorth ar gael i osod boeler biomas fyddai pe bai'r boeler yn cael ei osod gan y busnes coedwigaeth, ond y byddai'r gwres a gynhyrchid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sychwr grawn – mewn achos o'r fath, byddai'r busnes coedwigaeth yn gwerthu'r gwres i rywun arall a fyddai'n ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch ffermio. Allbwn y buddsoddiad oddi wrth y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren fyddai gwerthu'r gwres ac nid yw hynny'n 'weithgarwch prosesu' sy'n ychwanegu gwerth at gynhyrchion pren. Enghraifft lle byddai cymorth ar gael i osod boeler biomas fyddai pe bai'r boeler yn cael ei osod gan felin goed a bod y gwres a gynhyrchid yn cael ei ddefnyddio i wresogi adeilad y felin, i redeg odyn sychu neu i sychu sglodion coed a bod dim o'r gwres yn cael ei werthu. Yn yr achos hwn, y felin goed yw'r busnes coedwigaeth a byddai'r gwres a gynhyrchid gan y boeler biomas yn cael ei ddefnyddio i helpu gyda'r gwaith prosesu, felly byddai modd cael cyllid ar gyfer y boeler.

Os gallwch ddangos yn glir pam angen y boeler biomas er mwyn helpu gyda'r gwaith prosesu oherwydd y buddsoddiadau sydd i'w gwneud o fewn y prosiect, yna byddai'n gymwys i gael cymorth.

#### **C15: Fydd cael grant o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn effeithio ar daliad y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI)?**

A15: Bydd, ni fyddwch, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gallu hawlio'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy os byddwch yn cael grant cyfalaf i helpu gyda gosod boeler biomas.

Enghraifft, os byddwch yn hawlio RHI, yna ni fyddai'r boeler biomas a'r costau a fyddai'n gysylltiedig â'i osod yn rhan o weddill y prosiect pe byddai gennych ddigon o fuddsoddiadau mewn gweithgareddau prosesu i sicrhau y byddai'r prosiect yn parhau'n hyfyw.

**C16: Oes angen i'r prosiect fodloni pob un o'r 4 maen prawf blaenoriaeth ar gyfer y Datganiad o Ddiddordeb?**

A16: Nac oes. Dylech gyfeirio at y nodiadau cyfarwyddyd ar baratoi'r Datganiad o Ddiddordeb yn y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren er mwyn cael y manylion am y gofynion ym mhob maen prawf â blaenoriaeth, ynghyd â'r meini prawf ar gyfer sgorio a'r ffactorau pwysoli.